

## **RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU 2020/21** **PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD**

*'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, h.y.: Pobl (Sicrhau bod Pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus), Lleoedd (Creu Lleoedd y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw) a Ffyniant (Galluogi Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.) yn ogystal â'i egwyddor allweddol 'Byw ar yr hyn sydd gyda ni'.*

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad a threfniadau gwella'r Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD**

<b>Dyddiad/Amser</b>	<b>Nod cyffredinol</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Aelod o'r Cabinet</b>	<b>Gwahoddiad / Yn Bresennol</b>	<b>Craffu yn canolbwyntio ar...</b>
<b>Dydd Llun, 19 Hydref 2020 Rhithwir</b>	<p>Sesiwn Hyfforddi - Rheoli'r Trysorlys</p> <p>Rhaglen Waith 2020/21</p> <p>Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys</p>	<p>Hyfforddwyr Allanol - Airlingclose</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p> <p>Pennaeth Materion Cyllid: Addysg ac Adroddiadau Ariannol</p>	<p>Y Cyngorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol</p>		<p>Derbyn trosolwg o drefniadau Rheoli'r Trysorlys, wedi'i gyflwyno gan Airlingclose (Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Cyngor), er mwyn helpu'r Aelodau i gyflawni eu rôl</p> <p><b>Craffu a Her –</b> Trafod eitemau ar gyfer Rhaglen Waith Blwyddyn y Cyngor 2020/2021.</p> <p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20</p>

	<p>Adroddiad Monitro Blynyddol - Ardoll Seilwaith Cymunedol</p>	<p>Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu</p>		<p><b>Craffu a Her</b> - Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas ag Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.</p>
	<p>Adroddiad Cyflawniad - Chwarter 1</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella</p>		<p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 1 y Cyngor (2020/21).</p>
	<p>Ymgysylltu mewn perthynas â Chyllideb y Cyngor</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p>		<p>Derbyn trosolwg o ddull y Cyngor mewn perthynas ag Ymgynghori ar Gyllideb 2021/22</p>

<p><b>Dydd Llun 16 Tachwedd 2020 Rhithwir</b></p>	<p><b>Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 - 2023/24</b></p> <p>Ymgynghori ar Gyllideb 2021/22 (Cam 1)</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p>			<p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2020/21 - 2023/24 a defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i lywio adborth y Pwyllgor, ac yntau'n ymgynghori ar gyfer cam 1 y broses ymgynghori ar Gyllideb 2021/22 y Cyngor.</p> <p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor roi adborth yn rhan o gam 1 y broses Ymgynghori ar Gyllideb 2021/22</p>
<p><b>Dydd Llun 21 Rhagfyr 2020 Rhithwir</b></p>	<p>Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2</p> <p>Y Diweddaraf mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth (Ddrafft) RhCT</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p> <p>Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu</p>			<p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2 y Cyngor.</p> <p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth ddrafft y Cyngor.</p>

<p><b>Dydd Iau 4 Chwefror 2021 Rhithwir</b></p>	<p>Ymgynghori ar Gyllideb 2021/22 (Cam 2)</p> <p>Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2020/21</p> <p>Adolygiad o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad ar gyfer 2020/21</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p> <p>Pennaeth Materion Cyllid: Addysg ac Adroddiadau Ariannol</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</p>	<p>Y Cynghorydd Mark Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol</p>	<p><b>Craffu a Her –</b> Cyflawni gwaith cyn y cam craffu mewn perthynas â Strategaeth y Gyllideb 2021/22 y cytunwyd arni gan y Cabinet erbyn 28.01.21</p> <p>Trafod Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2020/21</p> <p><b>Craffu a Her.</b> •A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? •A yw'r Rhaglen Waith yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? Cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad roi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith ac i drafod Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad ar gyfer 2020/21.</p>
---	--	---	---	--

<b>Dydd Llun 15 Mawrth 2021 Rhithwir</b>	Diweddariad - Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2020 – 2022 Rhondda Cynon Taf	Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned	Y Cynghorydd Bevan Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter Datblygu, a Thai	<b>Craffu a Her –</b> Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Chynllun Gweithredu a Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth y Cyngor er mwyn craffu ar ddeilliannau'r strategaeth.
	Diweddariad – Strategaeth Dwristiaeth	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu		Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn diweddariad mewn perthynas â Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor.
	Derbyn cyflwyniad sy'n rhoi amlinelliad o rôl digiddeiddio o ran cefnogi gwaith trawsnewid gwasanaethau	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Digidol a TGCh	Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol	<b>Craffu a Her -</b> Cyflawni gwaith craffu mewn perthynas â rôl digideiddio o ran dulliau gweithio newydd a thrawsnewid gwasanaethau.

<p><b>Dydd Mawrth 13 Ebrill 2021 - Rhithwir</b></p>	<p>Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3</p> <p>Trosolwg o gyllideb referniw 2021/22 y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd</p> <p>Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (ER GWYBODAETH) (Eitem Eithriedig)</p> <p>Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2021/22 ac Adroddiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22</p>	<p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p> <p>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella</p> <p>Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor</p> <p>Pennaeth Materion Cyllid - Addysg ac Adroddiadau Ariannol</p>	<p>Y Cynghorydd Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol</p>	<p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod Adroddiad Cyflawniad Chwarter 3 y Cyngor.</p> <p><b>Craffu a Her</b> - Craffu a herio'r trosolwg a ddarparwyd mewn perthynas â chyllideb referniw a rhaglen gyfalaf y Cyngor.</p> <p>Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor drafod diweddariad dros dro i'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.</p> <p>Rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2021/22 ac Adroddiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22</p>
---	--	--	--	--

**Anghenion Hyfforddi:-**

- Hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys - Airlingclose (Medi 2021)

## Eitemau Posibl i'w trafod yn y dyfodol

- Grantiau Adfywio - Archwilio effaith ailffocysu ac adolygu'r Grantiau Adfywio Busnesau.
- Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - derbyn diweddariadau amserol yn ôl yr angen.
- Sesiynau Ymgysylltu'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet